

Tasg 2

Goleuni'r Gogledd

Tasgau trafod a chreadigol

1. Edrychwch ar y darn **Chwedloniaeth Goleuni'r Gogledd**.

- Pam roedd pobl yn credu'r hanesion am Oleuni'r Gogledd?
- Pa un o'r hanesion sy'n apelio fwyaf atoch chi?
- Ar ôl gweld lluniau neu fideo o'r Goleuni, allwch chi feddwl am syniadau eraill posibl?

Ydych chi'n gallu meddwl am ffenomenau eraill y mae pobl yn y gorffennol wedi ceisio eu hesbonio mewn ffyrdd diddorol?

2. Dychmygwch eich bod yn mynd i Norwy gyda nifer o bobl eraill i weld Goleuni'r Gogledd. Lluniwch ddarn sy'n disgrifio'r profiad o fynd allan gyda'r nos.

- Bydd hi'n oer! Disgrifiwch beth rydych chi'n ei wisgo (sawl haen o ddillad, efallai), a sut mae eich corff yn ymateb i'r oerfel.
- Oes eira o dan draed? Os oes, sut mae cerdded drwyddo yn teimlo a pha sŵn mae'n ei wneud?
- Ydy'r Goleuni i'w weld yn syth? Neu oes cyfnod o aros yn ddisgwylgar?
- Beth rydych chi'n ei weld? Disgrifiwch y Goleuni, gan ddefnyddio cymariaethau a throsiadau diddorol.
- Sut mae pawb arall yn ymateb?
- Beth wnaethoch chi wedyn, ar ôl cyrraedd yn ôl o dan do?